"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Cyfres Newydd.] EBRILL, 1884. [Rhif 32.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Beth mae Undodiaeth yn olygu	73
Paham y gwerthfawrogwn ein Undodiaeth	75
Nodynau Eglurhaol ar "Delyn Dewi" (Parhad)	76
Gemau Beecher	80
Gwib-feddyliau "Pen fy Mlwydd"	81
Angladdau	82
Teyrnas Dduw	84
Gwersi ar y Psalmau (Parhad)	88
Looking out for Number One	89
David Jenkin Rees o Loydjack	90
Nodynau Gwasgarog	92
Manion a Hanesion	94
Marwgofion	96

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] EBRILL, 1884. [Rhif 32.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

BETH MAE UNDODIAETH YN OLYGU.

Dywed James F. Clarke fel yma,—"Beth yw Undodiaeth? Paham ydym ni yn Undodiaid? Beth yw y rheswm sydd genym i'w roddi am ein bodolaeth fel enwad annibynol, ac ar wahan oddiwrth ereill?" Heb fanylu dim ar atebion ereill ellir eu rhoddi cawn osod allan ein syniad ein hunain ar y pwnc. Yn ein golwg ni gwaith Undodiaid yw rhoddi prawf byw ac ymarferol y gall fod undeb yspryd a chydweithrediad lle nad oes credo unffurf; y gall dynion ddyfod yn Gristnogion mewn ymddygiad a chymmeriad heb ofn uffern; mai gwaith Cristnogion yw gwella y byd a gwneyd y sawl a'u hamgylchynant yn fwy dedwydd a gwell yma * * * fod gwir wasanaeth i Dduw yn gynnwysedig mewn gwneyd daioni i ddyn; ac nad yw crefydd yn perthyn dim rhagor i'r Sul, i'r Eglwys, i addoliad â gweddi nag yw i bob rhan o'r bywyd dynol. Gwaith yr Undodiaid yw gosod pwys ar hyn oll, oblegyd dyma eu golygiadau, neu eu meddylddrychau arbenigol, ac nid ydynt wedi cael eu derbyn yn gyffredinol hyd yma gan yr Eglwys Gristnogol. Y mae y byd Cristnogol yn rhanedig i sectau a phartion, am ei fod yn credu fod credo sefydlog a phennodol yn angenrheidiol er undeb. Yn herwydd ei fod yn condemnio fel hereticiad y sawl sydd yn gwahaniaethu oddiwrtho mewn barn; y mae yn achosi anffyddiaeth. Yn herwydd na all ymddiried i ryddid, a'i fod yn ofni meddwl rhydd, y mae yn creu gelyniaeth yn erbyn crefydd haelionus a rhagorol yr Iesu. O herwydd ei fod yn credu fod yn rhaid i ddynion gael eu gyru at Dduw trwy ddychryn, y mae yn lladd greddfau y lluaws mawr; ac o herwydd ei fod wedi ei gwneyd yn ddyledswydd i feddwl am y byd arall, pan y mae Duw wedi ein gosod ni yma i feddwl am y byd hwn, y mae yn marweiddio dyddordeb dyn pan yn ymdrechu peri

i deyrnas Dduw i ddyfod, ac i'w ewyllys gael ei chyflawnu ar y ddaear.

Os gofynwn *Beth yw gwaith Undodiaid?* atebwn nad yw Undodiaid ddim yma i brotestio yn erbyn Eglwysi ereill, i ymryson ar eu ffordd, neu i gario allan ryfel ysprydol gyda hwynt. Yr ydym i ddangos, os gallwn yn ymarferol, fod ein ffordd yn un dda, ei bod yn ein harwain i garu Duw a dyn, yn ein gwneyd yn wir ganlynwyr i'r Iesu, yn ein llanw yn gyflawn o ffydd yn Nuw a chariad at ein brodyr, yn peri i'r byd i fod yn well a mwy dedwydd tra fyddom ynddo, ac yn peri hefyd i ni fod yn barod i ymddiried yn Nuw gydag ymddiried perffaith pan y mae yn ein cymmeryd ni o hono. Os gallwn wneyd hyn, bydd i hyny i ddangos ein bod yn gwybod beth yw *neges Undodiaeth*. Os nad ydym yn llwyddo mewn gwneyd hyn, os nad ydym yn gwneyd dim ond yn unig myned trwy arferiadau neu ordeiniadau Eglwysig fel pe byddent yr hanfodion, yna bydd i deyrnas Dduw i gael ei chymmeryd oddiwrthym a'i rhoddi i'r bobl hyny sydd yn dwyn ei ffrwythau. Gall enwadau ereill fyw ar gredoau, ar dduwiolder cynhyrfiadol, ar ddefodau a sacramentau, ond nid yw Undodiaeth yn dda i ddim oddieithr ei bod yn cael ei seilio ar y bywyd, ei hadeiladu ar y cymmeriad.

Yn awr, os gofynwn pa beth yw dyben Eglwys Undodaidd, daw yr ateb oddiwrth natur Undodiaeth ei hunan. Eglwys Undodaidd yw ysgol er addysg grefyddol. Nid ein hamcan ni yw cario pechaduriaid trwy fath o droedigaeth, ac yna i'w gosod yn yr Eglwys i'w cadw yno yn ddyogel. Nid oes gyda ni ddim i'w ddywedyd yn erbyn y sawl sydd yn gwneyd hynyna eu hamcan; ond nid dyma ein ffordd ni, nid yw yn ol ein meddylddrychau ni. Pe y buasem ni yn ymdrechu gwneyd felly, ni fuasem yn llwyddo. Credwn ni yn sylweddoldeb pechod dynol. Y mae Duw yn gwybod fod digon o hono yn y byd. Ond nid llygredigaeth naturiol geni ydyw, ond pechod byw—y pechod sydd gynnwysedig mewn anonestrwydd, hunanoldeb, a chreulondeb. Credwn mewn edifeirwch, ond nid trwy fod dyn creulawn yn cael ei droi i fod yn saint trwy ryw alar mynudol a thywalltiad dagrau diystyr yn unig pan fyddo y teimladau yn cael eu cyffroi. Yr edifeirwch safwn ni mewn angen am dano yw troi oddiamgylch, ymadael â drwgweithredu, a dechreu gwneyd yr hyn sydd iawn. Credwn ni mewn maddeuant dwyfol a chymhorth, ond yr un fath gymhorth a maddeuant yw ag y mae tad a mam dda yn ddangos at blentyn sydd wedi cyflawnu yr hyn ni ddylai ac yn wir ddrwg ganddo am hyny. Credwn ni mewn dylanwadau dwyfol, ond nid mewn rhai allant fod yn ormesol ac anwadal, ond y sydd yn dylifo i lawr o'r uchelder fel goleuni yr haul, ac fel y disgyn y gwlaw bendithiol i lawr o'r nefoedd—ie, fel y mae y cyfryw yn dyfod yn ol deddfau cyffredinol ac annghyfnewidiol i gysuro a chryfhau dynoliaeth. Credwn mewn gweddi, nid yr hon sydd yn cael ei hanadlu a'i danfon i fyny i geisio am fendithion personol ac iechydwriaeth bersonol, ond y weddi hono fyddo yn agor y galon yn llydan ac agored i Dduw, i dderbyn goleuni a chariad, yn y fath fodd ag y byddo y goleuni a'r cariad hyny i gynnorthwyo a chadw ereill. Felly, ni safwn ni ddim mewn llai o angen crefydd nag ereill,

ond mwy. Safwn mewn angen am i'n heglwysi fod yn ysgolion o feddwl crefyddol a chariad, yn y rhai y byddwn yn efrydwyr a dysgawdwyr holl ddyddiau ein hoes. Safwn mewn angen am danynt i fod yn ysgolion yn y rhai y gall y dô sydd yn codi dyfu i fyny yn mhob peth i gymmeriadau rhagorol, yn y rhai y gallwn, wythnos ar ol wythnos a blwyddyn ar ol blwyddyn, ddysgu pa fodd i fod yn dda a gwneyd daioni, pa fodd i fod yn bur, cymmedrol, a gonest,—yn myned neu yn pasio felly o dymhor ieuenctid i hen oedran. I hyn, fel yr ymddengys i mi, y mae yr Eglwysi Undodaidd yn dda."

O.

PAHAM Y GWERTHFAWROGWN EIN UNDODIAETH?

ATEB Dr. Channing i'r gofyniad yw,—"Gwerthfawrogwn a dymunwn wasgar ein golygiadau am y rheswm y credwn eu bod yn datguddio Duw i ni mewn gogoniant mwy ac yn ein dwyn yn nes at Dduw nag unrhyw rai ereill. Yr ydym yn ymwybodol o ryw angen mawr na all y greadigaeth ei ddiwallu; angen am Fod Perffaith yn yr hwn y gall nerth ein cariad gael ei ganolbwyntio, ac am Dad Hollalluog yn yr hwn y gallwn ymddiried yn ngwyneb ein gwendid, ein hanmherffeithrwydd a'n galar a'n gofidiau, a'r fath Dad y mae Cristnogaeth Undodaidd yn osod o'n blaen. Gwerthfawrogwn hyn uwchlaw pob pris. Gallwn roddi i fyny yn rhwydd bob peth da arall. Gallwn ymdaro yn ngwyneb fod holl ragolygon tecaf a mwyaf gobeithiol y byd hwn yn cael eu tywyllu; ond y mae yr athrawiaeth ddysglaer a chysurlawn yma o un Duw y Tad yn anwylach nâ bywyd, ac ni allwn fod hebddi. Trwy y ffydd yma y mae pob peth yn dyfod yn ddysgleiriach dysgleiriach yn ein golwg ni. Gan mai y fath Fod a'n gwnaeth, edrychwn ar ein bodolaeth yn rhodd na ellir ei phrisio. Cyfarfyddwn â'n Tad yn mhob man, ac y mae ei bresenoldeb yn dysgleirio fel yr haul ar ein llwybrau. Gwelwn ef yn ei weithredoedd, clywn ei fawl yn codi o bob man. Teimlwn ef yn agos yn ein hunigedd, ac ar brydiau mwynhawn gymmundeb mwy tyner a gwresog ag ef nâ chymmundeb dynol. Gwelwn ef yn ein dyledswyddau, a chyflawnwn hwynt yn fwy ewyllysgar oblegyd eu bod y deyrnged oreu allwn ni gynnyg i'n Noddwr a'n Cymmwynaswr Nefol * * * * Nid oes un daioni yn ormod i ni i'w ddysgwyl i'r greadigaeth ac i ni ein hunain oddiwrth y fath Dad ag y credwn ni ynddo. Dysgwyliwn a gobeithiwn wrtho ac ymddiriedwn ynddo am yr hyn a ystyriwn ei rodd fwyaf, hyd y nod y rhodd o'i yspryd ei hun, a'r dedwyddwch o gynnyddu dros fyth mewn gwirionedd a rhinwedd, mewn gallu a chariad, mewn undeb meddwl gyda'r Tad a'i Fab Ef Iesu Grist. Dywedir wrthym gan rai dynion, y mae yn wir, na fydd ein ffydd i brofi ei hunan yn angor i ni yn ein horiau olaf; ond gwyddom ni am rai ag y mae eu hymadawiad wedi cael ei ddyddanu a'i sirioli ganddi,

ac y mae ein profiad ni o'i gallu mewn profedigaeth a pherygl wedi profi ei bod yn cyfateb ac yn gyfartal i holl angenion y natur ddynol. Nid ydym yn amheu, nid oes yr un amheuaeth ynom, na fydd angau ei chredinwyr megys yn fynediad i mewn i'r trigfanau tawel, llawen a phur hyny sydd wedi cael eu parotoi gan Grist i'w ddysgyblion."

O.

NODYNAU EGLURHAOL AR "DELYN DEWI."

(*Parhad o Tudalen 69.*)

Odid nad oes rhai o ddarllenwyr Yr Ymofynydd a allant ddywedyd ai yr un oedd Sion y Panwr y mae Daniel Ddu yn canu am dano, a Sion y Twcwr (John Williams, Pentref Rhydowen), y mae Amnon wedi cyfansoddi y pennill canlynol iddo :—

"Un didwyll a diniwed oedd, a Duw y lluoedd ofnai :
Ar yrfa'i fywyd hyd ei fedd, ar hyd ffordd hedd y rhodiai."
Crwth Dyffryn Cletwr, tud. 58.

Beth gawn ni ddeall wrth "Y Ddwy Ffurf Lywodraeth?" (54)* Tybiaf mai yr ateb arwynebol heddyw fyddai, Llywodraeth Geidwadol a Llywodraeth Ryddfrydol ; ond o'r braidd yr etyb hyny i ansawdd yr englynion. Beth ynte feddylir ? Ai cyfeiriad sydd yma at Lywodraeth Unbenol (*Monarchical*) a Llywodraeth Weriniol (*Republican*) ? ynte un gyfyngedig ac un annghyfyngedig feddylir ? neu ynte a yw y cyfeiriad at gyflwr Ffrainc tuag adeg y Chwyldroad (1789), a'r awgrymiad at Lywodraeth trefn ac annhrefn ? Mae y geiriau "Y naill o Dduw 'r nall o dd——l" yn awgrymu rhywbeth tebyg. Yn yr ail englyn darllener "Lin olin maent elynawl, I'r byd a'i hawddfyd a'i hawl." Mae gwall hefyd yn y trydydd, ond sut mae ei wella ? Ai "A llaw *Dduw*, i'n llu a ddaeth," ynte "A llaw Duw i'n llu *y daeth*."

Yr ydym yn dyfod yn awr at un o'r darnau mwyaf dyddorol yn rhyw ystyr yn y llyfr, sef llinellau "I Ifan y Post, Post o Lambedr i Balasau Glyn Aeron, 1774." (tud. 61.) Pwy sydd yn meddu gwybodaeth digon manwl i ddeall y cyfeiriadau hanesiol lluosog geir yma ? Dyma rai o ddygwyddiadau y flwyddyn hon : Dychweliad y Cadben Cook o'r Mor Tawelog ; rhyfel ofnadwy rhwng Rwssia a Thwrci ; sylwer ar y pennill :—

"Hanesion ynysoedd, a mawrion deyrnasoedd,
A gwaedlyd ryfeloedd, eu lluoedd ar lled."

Yr oedd yr annghydfod yn America hefyd yn dechreu, a thua diwedd y flwyddyn yr oedd yn amlwg fod rhyfel yn anocheladwy. Gwnaeth Pitt a Burke a allent i gadw heddwch, ond nid oedd gan y Prif Weinidog, Lord North, un amcan uwch na boddio y brenin, a mynai yspryd

* Mae y cyfeiriadau at yr Argraffiad Newydd.

jingoaidd hwnw ddwyn cosp ar y trefedigaethwyr. Mor naturiol ar yr adeg hono oedd gofyniad yr hen fardd!

"Pa un a fydd dyben o ryfel a chynen,
Rhwng dynion hen Brydain a'u brodyr,"

hyny yw eu brodyr yn yr Amerig. Ni ddechreuwyd ymladd hyd Ebrill 19, yn y flwyddyn ganlynol, pan y cymmerodd *skirmish* le yn ymyl Lexington. Dysgwyliad a gobaith gan hyny sydd yn llefaru yn y pennill hwn:—

"Ni bydd yn hawdd boddio y Las-allt wych heno,
Ac ofer i dreio tymhwyro'r Ty mawr,
Heb glywed i'n byddin ar gil lwyr-droi'r gelyn
Mewn dychryn a'u dylyn hyd elawr."

Ni ennillwyd brwydr Bunker's Hill gan y Saeson hyd Mai, 1775. Mae yn amlwg nad yw y bardd yn cymmeradwyo y rhyfel, ac felly yn yspryd proffwyd mae yn canu:—

"Pur waed ein gwyr goreu, yn nghyd â'u bywydau,
A redodd yn ffrydiau ar donau ac ar dir,
Fel nad yw ein dynion trwy'n hynys yr awrhon
Ond gweinion teneuon tan awyr.

Ni welodd ein hynys un dydd anrhydeddus
'Nol myn'd yn gamweddus rhyfygus eu rhod:
Er gwaeled fu'r gelyn, bydd i bob baw-ddyn
Heb fyddin nac erfyn eu gorfod.

Och! gwaed ein gwyr goreu, gan redeg yn ffrydiau
O'r bronydd a'r bryniau'n hyll donau llawn dig,
Pan daeth i'r dyffrynoedd a'r gwaelod, drwg liwiodd
Holl ddyfroedd a moroedd Amerig."

Sylwer yn neillduol ar ddechreu yr ail bennill yma. Yr wyf yn fwriadol wedi gadael y ddau Dyglyn hyd y diwedd, gan fy mod yn methu cyssoni yr hyn a ddywedir ynddynt a'r *date*, 1774. A ydym i ddeall oddiwrth y cyntaf fod yma gyfeiriad at rywun wedi marw? "'Nol myn'd eu goreuddyn i derfyn ei daith;" ac os felly, ai Philip ydyw hwnw? Y Philip hwn yn ol y nodyn ar y gwaelod yw Philip Pugh, Ysw., o Dyglyn-Ucha, yr hwn oedd yn fab i'r gweinidog enwog o'r un enw, a fu farw Gorph. 12, 1760, yn 81 oed; ond gellir casglu nad oedd hwnw ddim wedi marw yn 1779, gan y ceir enw "Philip Pugh of Tuglyn, Esq.," y flwyddyn hono fel tanysgrifiwr am 24 copi o "Bywyd Duw yn enaid Dyn." A ydyw yn debyg mai at y pregethwr mae y cyfeiriad? A fu hwnw yn byw yn y Tyglyn? Byddai yn ddyddorol cael gwybod pa bryd y bu Philip y mab farw, a phwy oedd yn byw ar yr amser dan sylw yn y Tyglyn-Isaf? Ymddengys yn debygol oddiwrth y geiriau "eu goreuddyn," fod teuluoedd y ddau Dyglyn yn perthyn i'w gilydd. Wedi'r cwbl feallai mai Ifan y Post yw y "goreuddyn." Tyglyn-Isaf sydd yn teimlo hyfrydwch yn yr "hanes am heddwch." Cymmerodd heddwch le rhwng Rwssia a Thwrci yn 1774, ond yn 1783 y sicrhawyd heddwch rhwng Lloegr a Ffrainc, a rhwng

Lloegr a'r Unol Daleithau. Digon tebyg mae yr un "Heddwch" y cyfeirir ato yn yr Englynion, tud 85.

Cyfieithad yw "Cais y Cardotyn" o ddarn Seisnig (awdwr yn anadnabyddus), yn dechreu :—

Pity the sorrows of a poor old man,
Whose trembling limbs have borne him to your door;
Whose days are dwindled to the shortest span;
Oh! give relief and Heaven will bless your store.

Murray's English Reader.

Mae Edward Richards (1714—1777) yn un o feirdd goreu Sir Aberteifi. Nid yw ei weithiau yn lluosog nac yn helaeth, ond y mae yr ychydig sydd, yn rhagorol iawn. Desgrifir hwy gan Mr. Davis fel yn rhagori "mewn purdeb, eglurder, dwysder, a rhwyddineb iaith." Maent gan mwyaf ar fesur y Tri Thrawiad. Cyhoeddwyd argraffiad yn 1856 gan Spurrell, Caerfyrddin, yr hwn a werthir am tua grot neu chwe' cheiniog. Mae y ddwy gerdd ar "Bont-rhyd-Fendigaid," un yn canmol, a'r llall yn trin. Dywedir i'r awdwr gyfansoddi y gyntaf cyn i'r bont gael ei chodi, a phan oedd yn dysgwyl iddi fod yn bob peth oedd yn ardderchog; a'r llall ar ol ei chodi, pan nad oedd wedi dyfod i fyny â'i ddysgwyliadau. Sylwer yn y cyssylltiad yma ar yr englynion canmoliaeth i E. R., cyflwynedig i'r Meddyg Jones o Brynhope yn mhlwyf Caron, yn meddiant yr hwn oedd yr ysgrifau, y rhai y dymunai Davis eu gweled yn argraffedig. Gweler y gwall yn yr englyn canlynol :—

Ei lon-gan sy'n dy lawn-gell,—mewn lloches
Mae'n llechu'n dy lyfrgell;
Y ddor agor i'r wiwgell,
Tyr'd wr glan â'r gân o'r gell. (60, 86.)

Gellir meddwl fod "Boddlonrwydd," (60, 140,) yn bwnc hoff gan Feirdd Sir Aberteifi. Ceir yn y Delyn ddwy gân ar y pwnc, ac os wyf yn cofio yn iawn mae Daniel Ddu ac Amnon wedi treio eu llaw ddwywaith ar yr un pwnc hefyd. Y peth mawr yw bod yn alluog i ddywedyd gyda Phaul, "Myfi a ddysgais yn mha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddlawn iddo!"

Cyfieithad yw "Cwynfan Alexander Selkirk," (61) o waith William Cowper (1731—1800), seiliedig ar hanes un Cadben Woodes Rogers o'i Fordaith oddiamgylch y Byd, a gyhoeddwyd yn 1712, lle y dywed iddo yn 1709, gymmeryd oddiar Ynys Juan Fernandez forleidr o'r enw Selkirk, yr hwn oedd wedi cael ei adael yno yn 1704 gan ei gadben, ar ol tipyn o ffrae. Dygwyd Selkirk i Lundain gan Cadben Rogers yn 1711. Tra thebyg mae yn yr hanes yma y cafodd Daniel de Foe (1661—1731) yr awgrymiad a barodd iddo gyfansoddi ei ffug-hanes bydenwog Robinson Crusoe.

Beth yw Gofyn-nod? (What is a Note of Interrogation) meddai Pope (1688—1744) unwaith wrth rywun, a'r ateb a gafodd oedd, "It is a crooked little thing that is always asking questions." Crwca

o gorff a chrwca o dymher oedd Pope mae yn debyg, ond y mae llawer o'i farddoniaeth yn rhagorol. Er nad yn y dosparth blaenaf o feirdd Seisnig, mae yn sefyll yn uchel yn yr ail ddosparth. Ceir cyfieithad y Parch. T. Evans o'r pump pennill cyntaf ac o'r olaf o'r *Universal Prayer* (64) yn "Emynau Mawl a Gweddi" (15). Cymharer hwy ag eiddo Davis. Darllener pennill 4 fel hyn:

'N ail Uffern im' gwna'r hyn a fo Cydwybod yn ei w'ardd;
A nefoedd imi ar bob tro Fo gwneyd ei heirchion hardd.

Prin iawn yw yr Hunan Ymddyddan (83) o ddod i fyny a'r gwreiddiol, ond y mae yn rhagori yn mhell ar y lluaws cyfieithadau ereill wyf wedi weled.

A oes rhywbeth yn Nghri'r Carcharor (66) a'n galluoga i benderfynu yr amser a'r achos o'i gyfansoddiad? Yr wyf yn meddwl fod y Bardd yn nghyflawnder ei nerth meddyliol ar y pryd. Er nas gellir yn bendant ddywedyd beth oedd yr achos, dichon y gellir dyfod o hyd i ryw amgylchiadau yn mhrofiad y Bardd a allent fod yn achlysur. Yn ol Spurrell (Carmarthen, &c., p. 125), cafodd un Philip Philips ei grogi yn Nghaerfyrddin, a'i sibedo yn Nghastell Newydd yn Ebrill, 1767, a thua diwedd y flwyddyn crogwyd un E. Higgins yn yr un lle. Yr oedd Mr. Davis ar y pryd yn y Coleg, a gallwn gasglu fod hyny yn sicr o fod wedi gadael argraff dwfn ar ei feddwl. Mae y "Llu sy'n cyrchu i mewn i'r carchar, Bob dydd o ranau pell y ddaear," yn awgrymu, nid at "Ffrancod Abergwaun," yr oedd tiriad y rhai hyny yn ddiweddarach, Chwefror 22, 1797; cyhoeddwyd y "Cri" yn 1792. Gall ystyriaeth o'r geiriau hyn hefyd helpu: "Dyma driniaeth wael, druenus, I un a ga's ei fagu'n foethus!"

James Beattie (1735—1803), awdwr "Y Meudwy" (73) oedd Ysgotyn enwog genedigol yn Kincardineshire, a Phroffeswr yn Aberdeen. Ei "Essay on Truth" yw y pwysicaf feallai o'i holl weithiau. Yr oedd ef yn un o'r "Three Northern Lights" y bu Priestley yn tynu yr ysgrafell drostynt. Reid ac Oswald oedd y ddau arall. O'r tri, Reid yw y mwyaf o lawer. Mae yn rhy anhawdd penderfynu trwy ba amryfusedd y gadawyd y ddau bennill olaf allan o'r Saesneg (166), mae hyny wedi arwain rhai i dybied fod Mr. Davis wedi ychwanegu dau bennill gwreiddiol.

Yn y "Cynghor Tad" (77), darllener

'Dyw balchder byd, a gwychder gwedd, Na mawredd ddim i'r meirw;
A da ni ddaw na lles i ddyn, O olud a dry'n ulw.

A gwrandawed y bobl ieuainc

Os ymollynga lleithder llanc, Yn ifanc i gyfeddach,
Ond odid fawr, nes dod i'w fedd, Na fydd e' feddwach feddwach.

Yr un oedd y Parch. James Evans o Stockton (tud. 80) a'r Parch. James Evans, Llanfyllin, a sonir am dano yn y Ffarwel i Gaerfyrddin (tud. 148). Yr oedd yn un o gydfyfyrwyr Mr. Davis yn y Coleg, a sefydlodd yn Llanfyllin yn 1769. Gallwn feddwl wrth y cyfeiriadau

yn y Delyn ei fod yn ddyn parchus a chrefyddol, awyddus am les ei hen gyfeillion yn Nghymru. Ond fel hyn y darllenwn yn Hanes yr Eglwysi Annibynol (I. 262): "Wedi ymadawiad Mr. Rees daeth Mr. James Evans yma, ond byr iawn fu ei arosiad yntau yma. Yr oedd yma yn 1769, ond ymadawodd, ac nis gwyddom i ba le. Cyfnod "Tywyll du" oedd hi ar yr achos yn ystod tymhor y pedwar gweinidog yma. Yr oeddynt ill pedwar yn Arminiaid neu yn Ariaid, os nad yn rhywbeth pellach; ac yr oedd anadl eu gweinidogaeth wedi sychu i fyny bob gronyn o deimlad crefyddol yn yr eglwys." Y pedwar gweinidog oeddynt Dr. Jenkins, wedi hyny o Goleg Caerfyrddin, B. Radcliffe, B. Rees, a James Evans. O'r braidd y gallaf gredu fod Mr. Evans wedi gwneuthur llawer i sychu crefydd yno, gan y cawn ef, yr wyf yn meddwl yn yr un flwyddyn, wedi sefydlu yn y Drefnewydd yn Sir Drefaldwyn (1769—1773). Wedi hyny yr wyf yn ei golli hyd y flwyddyn ganlynol (1774), pan y sefydlodd yn Alcester yn Warwickshire. Oddiyno symmudodd yn ngwanwyn 1785 i Stockton-on-Tees, a bu yno yn weinidog parchus iawn am yn agos 20 mlynedd, ac yn ystod y gweddill o'i fywyd yn wrandawr ac yn aelod oedd yn teimlo dyddordeb gwresog yn mhob peth oedd yn dal cyssylltiad â'r achos. Bu farw Mawrth 9, 1834, yn 89 oed. Yr oedd Mrs. Evans wedi marw y flwyddyn cyn hyny yn 90 oed. Yr oedd Evans wedi ei eni, meddai y Parch. Tim. Davis, Evesham, o deulu ymneillduol parchus ar lan Teifi, ac heb fod yn mhell o Gastellnewydd (*Monthly Repos.*, 1823, p. 160).

Yr oedd "Y Dyddanwch Teuluaidd" (90) yn cynnwys darnau barddonol o weithiau Goronwy Owen, Lewis Morris, Huw Huws, &c. Fe'i cyhoeddwyd yn 1763. Pwy oedd Ifan Dafydd nis gwn, ond dywedir wrthyf fod Cil-llwch yn ymyl Dihewyd. S. N. S.

GEMAU BEECHER.

DUW A'R ARWYDDLUNIAU O HONO YN NATUR.

Y MAE pob peth yn y byd naturiol yn arwyddlunio Duw. Ond ni sieryd yr un o honynt am dano Ef ond mewn aceniadau toredig. Y mae Efe yn eistedd uwchlaw iddynt oll, yn fwy aruchel nâ'r mynyddoedd, yn fwy mawreddog nâ'r ystormydd, melusach nâ'r blodau a'r tyner ffrwyth, urddasolach nâ'r arglwyddi, ffyddlonach nâ rhieni, a mwy cariadlawn nâ chariadon. Cyffyrdda ei draed fanau iselaf y ddaear; ond y mae Ei ben uwchlaw pob gogoniant, ac yn ben yn mhob man.

PECHOD DIRGEL FEL ANGOR Y LLONG.

A WELSOCH chwi long yn y môr, yn troi yn ol ac yn mlaen gyda'r llanw, ac yn ymddangos fel pe buasai am fyn'd i'w ganlyn, ond nis gall, oblegyd y mae'n rhwym wrth yr angor sydd i lawr yn y gwaelodion. Felly y mae llawer enaid yn ymddangos fel yn symmud tua'r nefoedd, ond nis gall esgyn tuag yno, o herwydd ei fod wedi ei angori wrth ryw bechod dirgel.

GWIB-FEDDYLIAU "PEN FY MLWYDD."

Er rhybudd ar rybudd taw 'madael sydd raid,
Gwrthnysig i'r eithaf ym ni yn ddi baid,
Di feddwl am farw, di feddwl ail fyw,
Di feddwl wynebu ein barnwr a'n Duw!

Er maint ein hanghofrwydd o'r cyfan a gawn,
Daioni rhagluniaeth ein Tad a ŵyn hawn;
Ei gariad a'i ofal sy'n tywallt, fel gwlith,
Ryw fendith ar fendith bob eiliad i'n plith.

Y ddaear oedd gyneu yn swyno pob bardd,
A'i bleidau amryliw a'i llysiau tra hardd.
'Nawr, dymhor y gauaf, sy'n gorphwys i gyd,
Er enmill swyn-fawredd i ddenu ein bryd.

Mae anian yn huno dan fantell wen, lân,
A'i chanwyr yn ddystaw bob un, yn ddi-gân,
Ei choedydd a'i llwyni, sy'n ddi-wallt a llwyd,
A gwrid ei gwynebpryd gan rew yn ei rhwyd.

Y gwanwyn mwyn, tyner, ddaw eto heb feth,
Ac anadl-bywyd adfywia bob peth;
Ail-ienetid a'i dlysni, brydfertha ei bron,
A'i phêr aur-delynau delorant yn llon.

Mae 'ngauaf oer inau yn cyflym neshau,
Pan raid im' roi fyny fy einioes fer, frau,
Dymunwyf o'm henaid iawn dreulio fy oes,
Fel syrthiwyf i gysgu yn heddwch y Groes.

Gan hyny ystyriwn, nas gallwn ysgoi
Yr amser cawn ninau, ar fyrder, ein cloi
Yn nghelloedd oer angau, i orphwys, hyd ddydd
Gollyngiad y meirwon, o'u rhwymau yn rhydd.

Fynunonell pob cysur, ein Crewr doeth, da,
Y fraint o'th adnabod, i ni caniata;
Ein dellni meddyliol, diflaned i bant,
Fel gwelom ddaioni ein Tad at ei blant.

Ar heddweh a iawnder, O bydded ein bryd,
Tra f'om bererinion ar daith drwy y byd,
Fel elom i gysgu yn dawel, mewn hedd,
Pan ddelo gwys angau i'n galw i'r bedd.

O! Arglwydd daionus, os iawn, genyt Ti,
Tosturia'n drugarog, O Dad, wrthym ni;
Er gofid a galar, addefwn ein drwg,
Trugaredd a geisiwn, a'th wêu, yn lle'th ŵg.

O! Dad, pan ddanfoni yr Iesu'n dy bryd,
I roddi ail-fywyd i feirwon y byd;
O pan ein dihuna, ein gwa'wdd gaffom ni
I'n cartref fyth-hapus, dy Wynfa lân Di.

Gauaf, 1883. CYNONWYSON.

ANGLADDAU.

YR wyf o'r farn fod cisiau cael gwelliantau lawer yn nglyn â'r angladdau trwy'r wlad yn gyffredin, ac yn neilldnol felly mewn rhai cymmydogaethau. Mae yn rhaid cladduʼr meirw. Myn rhai, ac y mae'r nifer yn cynnyddu, mai gwell yw eu llosgi yn gyntaf, ac yna cladduʼr ychydig ludw fyddo ar ol—y *gweddillion* fel y gellir eu galw. Beth bynag y dull goreu, mae yn rhaid gosod yr hen gorff yn rhywfodd ac yn rhywle allan o'r golwg wedi darfod o hono a byw. Nid yw i gael ei adael i bydru ar wyneb y tir, fel y gadewir hen goeden weithiau pan fyddo wedi syrthio trwy ryw achos neu gilydd. Mae dadgyfansoddiad (*decomposition*) yn dechreu cymmeryd lle yn uniongyrchol ar ymadawiad yr anadl; a byddai gadael y corff i bydru a drewi gerllaw heb ei briddo wenwyno yr awyr ydym yn anadlu ac felly derfynu yn anamserol ein bywydau ein hunain. Mae yn hen ddywediad, ond ffol i'r eithaf, fod y byw wrth fyned i gladdedigaeth y marw yn myned i *dalu'r gymmwynas olaf* i'r cyfaill ymadawedig. Clywais hen weinidog parchus unwaith yn dywedyd mai nid cymmwynas i'r marw yw ei gladdu, ond cymmwynas i'r byw; a dyna'r gwir am dano.

Mae angladdau *private*, hanner *private*, a *chyhoeddus*. Dim ond rhyw nifer fechan o'r perthynasau agosaf a wnant i fynu'r *private*; y perthynasau a rhyw nifer o gyfeillion gwahoddedig a wnant i fynu'r hanner *private*; ac i'r angladd gyhoeddus y daw pawb fyddo yn ewyllysio dyfod trwy rybudd neu heb rybudd. Mewn rhai angladdau cyhoeddus gwelir cannoedd lawer o ddynion o bob gradd, ar draed, ar feirch, ac mewn cerbydau—i ba ddyben nis gwn. Ysgrifenodd Mr. David Charles, hen frawd ffyddlon, os weithiau eithafol, o'r Llwyn, yn erbyn angladdau cyhoeddus mewn rhifyn o'r YMOFYNYDD flynyddau lawer yn ol fel hen gwstwm afreidiol ac afradus. Yr wyf o'r un farn ag ef ar y pwnc yn y rhan fwyaf o bethau a ysgrifenodd, ond tra yr erys yr hen gwstwm o gael angladdau llusog a chyhoeddus mewn bod, yr wyf yn sier y gellir dwygio llawer ar y dull presenol o'u dwyn yn mlaen. Tra byddo rhybuddio angladdau yn arferiad, gwnaer

hyny yn iawn. Mae ffasiwn newydd o rybuddio angladdau wedi dyfod i mewn yn ddiweddar mewn rhai ardaloedd: anfonir gair at Feistri yr Ysgolion Bynddol cyfagos, i geisio ganddynt hyspysu yn nghlywedigaeth y plant fod hwn a hwn neu hon a hon wedi marw, a bod y gladdedigaeth i gymmeryd lle dydd lan, neu ryw ddiwrnod arall fel y dygwyddo, am ddeg o'r gloch y bore. Nid bob amser mae pawb o'r plant yn cofio dweyd hyn gartref, ac hyd y nod pan yn cofio am y gladdedigaeth efallai fod y diwrnod wedi myned yn anghof. Hefyd nid o bob tŷ yn y gymmydogaeth y mae plentyn yn yr ysgol o gwbl, ac mewn canlyniad peth rhwydd ddigon i ambell i angladd, yn enwedig os dipyn yn mhell, basio heb yn wybod i lawer. Gwell genyf fi yr hen arferiad o anfon dau neu dri o bersonau oddiamgylch i alw yn mhob tŷ o fewn y cylch yr ydys yn amcanu rhybuddio; ac nis gallaf gredu fod neb yn rhy gristachlyd i roddi cardod o flawd yn nghlawdyn hen wr neu hen wraig yn gyduabyddiad o'r gwasanaeth.

Yn nesaf, dyna angladd wedi cael ei rhybuddio i fod, dywedir, am 9 neu 10 o'r gloch yn y bore; cyn cyrhaedd y gladdfa y mae yn aml yn getyn o'r prydnawn, ac o ran dim arall a wneir mae diwrnod cyfan yn myned ar goll. Pe gosodid yr angladdau yn y prydnawn, fel y gwneir mewn rhai cymmydogaethau, ni fyddai rhaid aberthu ond hanner diwrnod i'r gladdedigaeth. Yr wyf yn sier nad yw cynnilo amser, neu ei brynu, neu wneuthur y defnydd goreu o hono yn *hawdd*, ond i'r gwrthwyneb, yn ddyledswydd ar bob dyn.

Ettto, mae yr angladd i fod am 10 yn y bore, dywedwn, ac y mae pregeth i tod yn y tŷ cyn cychwyn tua'r gladdfa, a hwn a hwn i bregethu. Er fod y rhybudd am ddeg, tua hanner awr wedi deg neu yn nes na hyny at unarddeg, wele'r Gwr Parchedig yn gwneuthur ei ymddangosiad, a rhwng tynu ei *dog coat* i lawr a siglo llaw a'r galarwyr, a rhyw ddwsin neu ddwy o'r bobl fwyaf *respectable* oddiamgylch iddo, a chael tipyn adloniant sylweddol ac ysprydol mewn ystafell ddirgel yn rhywle yn y cefn, wele hanner awr o amser yn rhagor wedi myned heibio cyn dechreu'r gwasanaeth. Mae hyn yn rhy ddrwg, ac y mae yn resyn fod y fath beth yn cael ei oddef. Mae ambell i bregethwr drachefn yn faith dibendraw, yn hollol anystyriol o gytlwr y bobl sydd allan yn yr oerfel a'r gwlaw, neu wedi ymwthio i'r stablau a'r beudyau i aros y terfyn, nid dau ddylanwadau gras ond dau gynhyrfiadau natur ddrwg. Nid fel hyn y dylai pethau fod. Bydded i'r Pregethwr ddyfod yn brydlawn i'r angladd, dechreued y gwasanaeth yn brydlawn, a dyweded Amen yn brydlawn. Byddai hyn yn welliant mawr.

Yn mhellach etto, ys dywedai yr hen Arthur Williams wrth bregethu, dyma'r angladd yn ol y rhybudd i fod am ddeg; dyma'r Pregethwr yn bresenol wrth yr amser, ac wedi dyfod o bell ffordd efallai, wedi chwysu neu wedi gwlychu neu bob un o'r ddau, ond dim un dyn i'w weled yn y lle, – y teulu heb ymolchi a gwisgo a chymmeryd eu boreufwyd. Rhaid i'r Pregethwr aros am hanner awr, weithiau fwy, cyn delo ond ychydig borsonau yn nghyd. Nis gall y Pregethwr lai nag edrych yn hurt mewn amgylchiadau o'r fath, a chaniatau mai hen

greadur yw a ddylai fod yn foddlon yn mhob cyflwr. Ymdrechier cael tipyn o ddiwygiad ar y pen hwn etto.

Drachefn, dyma'r angladd am ddeg, y bobl wedi dyfod yn nghyd am ddeg, a'r Pregethwr yno hefyd am ddeg,—pob peth yn barod. Wele'r gwasanaeth yn dechreu, a dyma air yn cael ei roi allan i'w ganu, y ddwy linell gyntaf fel hyn :—

"Mae gwlad o wynfyd pur heb haint,
Yn hono byth teyrnasa'r Saint;"

ond neb yn dechreu'r dôn ; yr "Hen Ganfed" meddai'r Pregethwr, ond dim ond sylla ar eu gilydd mae'r bobl, ac amboll un yn herwthio'r llall yn ei ymyl i ddechreu ; dim,—ni wna un agor ei enau mwy na broga yn y gauaf. Gan na fedr y Pregethwr ei hun ganu, nid oes ganddo ddim i'w wneyd ond cau'r llyfr a myned yn mlaen at ran arall o'r gwasanaeth a gorphen yr oll o hono heb ganu o gwbl. Wedi myned allan o'r tŷ dyma'r Pregethwr, er ei gythrudd, yn gweled rhyw hanner dwsin o arweinyddion y canu yn y gymmydogaeth, a llawer ereill gyda nhwy, yn gorwedd ar bwys y cloddiau o amgylch, neu yn ymgysgodi rhag gwres yr haul dan y coed tewfrigog gerllaw, yn smocio, yn chwedlena, ac yn chwerthin, tra mae'r galarwyr oddifewn yn parotoi i gychwyn tua'r gladdfa. Ddynion, os oes ynoch ddim dynoliaeth, ddim Cristionogaeth, ddim synnwyr o weddeidd-dra, byddwch mor wasanaethgar ag y medroch yn angladdau eich cyddynion, neu aroswch yn nhref.

Ap Ioan.

TEYRNAS DDUW.

Syr,—

Nid oes unrhyw bwnc, yn dal cyssylltiad â'r grefydd Grist'nogol, ag sydd yn fwy pwysfawr na hwn i ddynion difrifol ac ymofyngar. Byddai iawn adnabyddiaeth o deyrnas Dduw yn werthfawrocach iddynt na dim a all y byd hwn roddi. "Chwanegwch," medd yr Apostol Petr, "at eich ffydd rinwedd, ac at rinwedd wybodaeth," yn enwedig gwybodaeth o deyrnas Dduw. Nid unwaith, ond llawer gwaith, y dywed yr Iesu wrth ei ddysgyblion, "Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando gwrandawed," hyny yw, yr hwn a fodd synwyr a deall, defnyddied hwynt er mwyn iddo iawn-amgyffred y pethau mawr ag oedd efe yn lefaru wrthynt. "Yr eiraid heb wybodaeth nid yw dda," medd Solomon. Y sawl ag y sydd yn anwybodus o natur a dybon cenadwri yr Iesu, er eu bod yn proffesu ei enw, ni allant fod o fawr werth yn ei olwg, nac ychwaith yn nheyrnas Dduw, os y cant ran ynddi o gwbl. Dwys ystyried y darllenydd y pwys mawr osoda yr Iesu ar wybodaeth o deyrnas Dduw, fel y profa y dyfyniadau canlynol :—

A'r Iesu a *aeth oddi amgylch holl Galilea*, gan ddysgu yn eu synagogau, a phregethu efengyl y deyrnas.—Mat. ix. 35.

Ac efe a ddywedodd wrthynt, yn wir *y mae yn rhaid i mi* bregethu teyrnas Dduw i ddinasoedd ereill, canys *i hyn y'm danfonwyd.*"—Luc. iv. 13.

A bu wedi hynny, *iddo fyned trwy bob dinas a thref*, gan bregethu ac efengylu teyrnas Dduw."—Luc. viii. 1.

Ac efe a'u danfonodd hwynt (y dysgyblion) *i bregethu teyrnas Dduw.*—Luc. ix. 2.

A'r bobloedd, pan wybuant a'i dylynasant ef, ac efe a'u derbyniodd hwynt, ac a *lefarodd wrthynt am deyrnas Dduw.*—Luc. ix. 11.

Mae gwybodaeth o deyrnas Dduw yn beth o'r pwys mwyaf cyn y dywedasai fod yn *rhaid* iddo ei phregethu, ac mai i'r dyben hyn y *danfonwyd ef!* Mawr y gwahaniaeth sydd rhwng testyn cenadwri yr Iesu â'r pynciau a drafodir yn awr yn gyffredin yn ein pwlpudau. Pregethu yr efengyl yn awr yw, naill ai pregethu credöau yr oes am Iawn a Haeddiant Crist, neu ynte ddyledswyddau a moesoldeb, ac nid nemawr rhagorach na'r moesoldeb a ddysgid gan hen efrydwyr Groeg a Rhufain cyn amser Crist. Yn ddiau, anwybodaeth o deyrnas Dduw yw y prif achos o'r dirywiad hwn. O ran fy hun, o leiaf, yr wyf yn sicr mai anwybodaeth oedd yr achos. Cymmerais fy arwain o'm ieuenctyd gan y dyb boblogaidd, yr hon sydd wedi ymlid o Eglwys Crist yr athrawiaeth Ysgrythyrol.

Yn nesaf, trown at yr Apostol Paul i weled beth oedd prif destyn ei bregethu yntau. Fel yr Arglwydd Iesu, teyrnas Dduw ydoedd, ac yn llawn mor selog a difrifol. Fel tystiolaeth mai hyn yw prif sylwedd yr Efengyl, mae awdurdod yr Apostol mor werthfawr ag awdurdod yr Iesu ei hun, oblegyd oddiwrtho Ef yn unig y derbyniodd yr Apostol ei wybodaeth o honi, a hyny trwy ddatguddiad (Gal. i. 12).

Ac efe (Paul) a aeth i mewn i'r synagog, ac a lefarodd yn hŷ dros *dri mis*, gan ymresymu a chynghori y pethau a *berthynent i deyrnas Dduw.* Act. xix. 8.

Ac yr awrhon mi a wn na chewch chwi oll (henuriaid Ephesus) yn mysg y rhai y *bum i yn traniwy yn pregethu teyrnas Dduw*, weled fy wyneb i mwyach. Act. xx. 25.

Llawer a ddaethant ato i'w letty, i'r rhai y *tystiolaethodd, ac yr eglurodd efe deyrnas Dduw*, gan gynghori iddynt y pethau am yr Iesu, allan o gyfraith Moses a'r proffwydi, o'r boreu hyd yr hwyr. Act. xxviii. 23.

Ac efe a dderbyniodd bawb a ddaeth i mewn ato, *gan bregethu teyrnas Dduw*, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist. Act. xxviii. 30—31.

Rhaid fod teyrnas Dduw yn beth mor bwysig yn ngolwg yr Apostol ag oedd yn ngolwg yr Arglwydd Iesu ei hun, onite ni fuasai yn llefaru arno dros *dri mis* yn synagog yr Iuddewon yn Ephesus, ac *o'r boreu hyd yr hwyr* wrth benaethiaid yr Iuddewon yn Rhufain. Yn sicr, mae yn werth i ninau gael iawn olwg ar beth ag oedd mor bwysig yn ngolwg yr Apostol a Iesu Grist ei hun.

Teyrnas nefoedd hefyd oedd testyn Phylip yn Samaria, fel y profa yr adnod ganlynol:—

Eithr pan gredasant i Phylip yn pregethu y pethau *a berthynent i deyrnas Dduw*, ac i enw Iesu Grist, hwy a fedyddiwyd yn wyr ac yn wragedd. Act. viii. 12.

Tractha yr hanesydd fod "arwyddion a nerthoedd mawrion" yn cydfyned â'i bregethu, yr hyn sydd yn brawf ei fod yn cael cymmeradwyaeth Duw. Mae yn rhaid fod nerth mawr yn cydfyned â'i genadwri, oblegyd dywedir i hyd y nod Simon y swynwr synu, a chymmeryd ei fedyddio.

Rhesymol yw casglu mai teyrnas Dduw hefyd oedd prif destyn cenadwri yr Apostolion ereill, er nad oes nemawr o son am danynt yn llyfr yr Actau, oddieithr am Petr ac Ioan. Mae tystiolaeth Petr yn nghylch teyrnas nefoedd, neu teyrnas Dduw, yn un bwysig iawn, sef i fod "yn rhaid i'r nef dderbyn yr Iesu hyd amseroedd adferiad pob peth, y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei sanctaidd brophwydi erioed:" Act. iii. 21. Ond caf sylwi ar hyn pan y del yn fwy ar fy ffordd. Ymddengys mai nid prif ddyben Luc yn ysgrifenu Actau yr Apostolion oedd rhoddi hanes planiad yr Eglwys, ond yn unig mor belled ag oedd hyny yn ei arwain i roddi hanes troedigaeth, teithiau, ymdrechion, ac erledigaethau yr Apostol Paul—y mwyaf nodedig o'r holl Apostolion.

Yn awr, y cwestiwn yw, beth sydd i ni ddeall wrth deyrnas Dduw. Rhaid i mi ymdrechu ei egluro. Yr ofn sydd arnaf y bydd i destyn mor bwysig ddyoddef yn fy llaw. Mae yn fynych yn dygwydd fod dyn o ddymuniad da, ac efallai yn deall ei bwnc, etto o herwydd anfodrusrwydd, neu rywbeth neu gilydd, yn gwneuthur mwy o ddrwg i'r pwnc nag o dda. Mae enghreifftiau o hyn yn dygwydd yn fynych. Nid oes genyf ond dweyd y gwnaf fy ngoreu, er y bydd hyny, yr wyf yn sicr, yn mhell o deilyngdod pwnc mor bwysfawr.

Y peth goreu fydd i mi yn gyntaf yw dweyd beth nad yw teyrnas Dduw.

1. Nid llywodraeth Duw ar y greadigaeth yw, fel y meddylia rhai. Pe hyn fyddai i ni ddeall wrth deyrnas Dduw, mae hi erioed, oblegyd nid oes un amser wedi bod pryd nad yw y byd a'i holl gyflawnder wedi bod dan lywodraeth a rhagluniaeth yr Anfeidrol Fod. "Yndde Ef," medd yr Apostol, "yr ydym yn byw, yn symud, ac yn bod." Os llywodraeth Duw yn y greadigaeth sydd i ni ddeall, pa fodd y gallasai Ioan Fedyddiwr ddweyd ei bod yn nesau (Mat. iii. 2), a'r Iesu i ddysgu ei ddysgyblion i weddio "Deled dy deyrnas?" Nis gall y peth sydd wedi bod erioed nesau a dyfod. Yn mhellach, os hyn sydd i ddeall wrth deyrnas Dduw, pa achos oedd danfon yr Iesu i'r byd i'w hegluro i'r Iuddewon, ac i'r Apostol lafurio cymmaint yn ei chylch? Gwaith afreidiol fuasai hyn, oblegyd yr oedd llywodraeth Jehovah dros yr holl ddaear yn un o bynciau sylfaenol ffydd pob Iuddew. Mae yn canlyn, am hyny, mai nid hyn sydd i ddeall wrth deyrnas Dduw.

2. Nid teyrnas Dduw ychwaith yw'r Eglwys Grist'nogol, fel y tybia ereill. Nid oes gymmaint ag un enghraifft o ddechreu hyd ddiwedd y Bibl, ar a wyf yn cofio, i brofi fod y gair Groeg *ekklesia* (eglwys), nâ'r

gair Hebraeg *kahál* (cynnulleidfa) yn meddwl teyrnas, ond yn wastad eglwys, neu ynte gorff o ddynion mewn undeb crefyddol neu wladol.

3. Yn olaf, nid teyrnas Dduw hefyd yw dylanwad yr Efengyl ar feddyliau a chalonau dynion. Eglurais y dyb hon yn rhifyn Mawrth. Y dyb boblogaidd yw. Deilliodd, fel y dywedais, oddiwrth yr enwog Origen, ac ereill o'r teidau Crist'nogol Platonaidd. Trwy yr arfer a ddygasant i mewn i'r Eglwys o ysprydoli rhanau o'r Ysgrythyrau a ddeallid hyd hyny yn llythyrenol, llwyddodd y dyb hon am deyrnas Dduw o'r diwedd i ymlid o'r Eglwys yr hen athrawiaeth apostolaidd. Nis gall dylanwad fod yn deyrnas. Lle y byddo teyrnas mae yn rhaid fod teyrn neu frenin, deiliaid, cyfreithiau, a gwlad. Peth sylweddol yw teyrnas, ac nid meddylddrych (*idea*).

Creda pleidwyr y dyb hon (ac y maent yn lleng) fod adnodau yn y Bibl yn profi ei gwiredd. Y rhai a ddygir yn mlaen yn fwyaf mynych pan fyddo dadleu yn ei chylch yw, ateb Crist i'r Phariseaid, pan y gofynasant iddo mewn gwawd, "pryd y deuai teyrnas Dduw." Atebodd yr Iesu, "Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae" (Luc xvii. 21). Y llall yw ei ateb i Pilat, "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn" (Ioan xvii. 36).

Yn awr, gyda golwg ar ei ateb i'r Phariseaid, gofynaf, ai peth rhesymol yw meddwl fod yr Iesu yn dweyd fod teyrnas Dduw o fewn calonau y dynion hyny wrth y rhai y dywedodd unwaith, "Oddiallan yr ydych yn ymddangos i ddynion yn gyfiawn, ond *oddifewn* yr ydych yn llawn rhagrith ac anwiredd" (Matt. xiii. 28)? Mwy tebyg o lawer fod teyrnas y Diabolos yn eu calonau, pe byddai y fath deyrnas yn bod. Meddwl y frawddeg (*entos humón*) a gyfleithir *o'ch mewn chwi*, yw yma *yn eich plith chwi*, neu *yn eich mysg chwi*. fel y mae yn cael ei gyfieithu yn ymyl y ddalen yn rhai Beiblau. Hefyd yn ymyl y ddalen yn y *Revised Version*, mae wedi ei gyfieithu, *in the midst of you*. Mae y gair bach *entos*, *yn mhlith*, neu *yn mysg*, yn cyfateb yn y cyfieithad Groeg, a elwir Septuagint, i'r gair Hebraeg *b'kerev*, *yn mhlith*, yr hyn sydd brawf ychwanegol mai *yn mhlith* yw meddwl y gair *entos* yma. Nid oedd teyrnas nefoedd wedi ei sefydlu yn amser yr Iesu. Nesau ydoedd. Y pryd hwnw y cafodd ei hegwyddorion gyntaf eu hegluro. Efe a hauodd yr hadau. Mae'r cynhauaf etto heb aeddfedu. Mae cyflawnder y cenedloedd etto heb ddod i mewn (Rhuf. xi. 25). Mae Duw etto heb orphen "cymmeryd o'r cenedloedd bobl i'w enw" (Act. xv. 14). Mewn gair, yn mherson yr Iesu yr oedd yr teyrnas nefoedd yn mhlith yr Iuddewon. Efe oedd ei chynddrychiolydd.

Nid yw ychwaith ateb yr Iesu i Pilat yn fwy i bwrpas cofleidwyr y dyb hon am deyrnas nefoedd. Nid ydym i gasglu oddiwrth ei ateb, mai mewn rhyw fyd arall yr oedd ei freniniaeth i fod. Ni oddef ieithwedd (*idiom*) Ioan y meddwl hyn i'w eiriau. Dywedyd mae'r Iesu nad yw ei freniniaeth i fod yn gyffelyb i freniniaethu y byd, y rhai a sefydlir ac a gynnelir á'r cleddyf a'r milwr. Sylfaen ei deyrnas ef yw y gwirioneddd, sef meddwl a bwriadau Duw. I egluro a chymmeradwyo ewyllys Duw, gyda golwg ar ei deyrnas, y ganed Ef, ac y daeth i'r byd. "Pe byddai fy mreniniaeth i fod yn gyffelyb i freniniacthau y cenedl-

oedd." fel pe dywedasai "fy swyddogion (*hyperetai*) a ymdrechent fel na'm traddodid i'r Iuddewon." Wrth swyddogion y meddylia yr angylion (Luc xxii. 53). Gyda golwg ar y frawddeg "o'r byd" (*ek tou kosmou*), neu "o'r byd hwn" (*ek tou kosmou toutou*), ei meddwl yw, yn tarddu o ysbryd y byd hwn. Awdurdod, ysbryd, a gweithredoedd y byd." Dywed yr Iesu am ei ddysgyblion "nad ydynt o'r byd" (*ek tou kosmou*), Ioan xvii. 14. Nid yw yn meddwl eu bod wedi dod o ryw fyd arall i hwn. Dywedyd mae'r Iesu nad ydynt o ran eu hegwyddorion a'u hysbryd ... yn gyffelyb i'r Iuddewon a phobl y byd yn gyffredin, y rhai ydynt yn ceisio, nid y pethau sydd o Dduw, ond y pethau sydd o ddynion. Yn fyr, dywedyd mae'r Iesu wrth Pilat fod ei frenhiniaeth Ef (yr Iesu) i fod yn wahanol i'r hyn mae dynion yn alw felly.

Yn y nesaf, ymdrechaf ddangos beth yw teyrnas Duw.

Birkenhead, Mawrth 13. D. L. Evans.

GWERSI AR Y PSALMAU.

(Parhad o tudalen 56.)

(7) *Ebrill 13.*—Y Duw Byw. Darllener Ps. cxv.

Duw yw bywyd, a ffynhonnell bywyd, deallol, moesol ac ysbrydol. Cymharer Esaiah xliv. 6—20. Addoliad yw priodoli teilyngdod uchaf i rywun neu rywbeth, yn nghyd a rhoddi i fyny ufudd-dod ac edmygedd yr enaid iddo.

A yw eilun-addoliaeth yn farw hyd y nod yn ein plith ni? [Emynau 5, 7, 96, 215.]

(8) *Ebrill 20.*—Y Llywodraeth Ddwyfol yn Foesol. Darllener Ps. xix., xxxvi. Gweler Ps. ix. 7, 8. 1—6 Y nefoedd yn datgan gogoniant Duw. 7—11 Am ei bod yn dangos fod ei ddeddf (h.y., ei ewyllys) yn dda, &c. 12—14 Gweddi am gyfarwyddyd moesol. [Emynau 27, 351, 91, 121.]

(9) *Ebrill 27.*—Duw Barnwr Pawb. Darllener Ps. xi., xii. Gweler Ps. xxvii., xxxvi. 1—7.

Dynion megys duwiau, yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg (h.y., yn meddu cydwybod) gyda'r y codent uwchlaw y bywyd anifeiliaidd; ac os barna dynion yn anrhegrechol (fel y maent yn gwneuthur), pa faint mwy y gwna'r Duw? [Emynau 11, 47, 93, 85.]

(10) *Mai 4.*—Y ffwlw a ddywedodd "Nid oes Duw." Darllener Ps. xiv. a chymharer Ps. xcii. 5—9; xciv. 7—15. Edrycher Ps. x. am ddesgrifiad o'r "Ynfyd."

Pethau ysprydol a fernir ac a ganfyddir mewn ffordd ysprydol. Gwel 1 Cor. ii.

Ni adwaenir cyffelyb ond wrth gyffelyb (Heracleitos). [Emynau 30, 341, 352, 207.]

(11) *Mai 11.*—Brenhiniaeth gyfiawn Duw. Darllener Ps. xcvi. Cymharer Ps. lxxvii. 2—3. 1—3 Can newydd ac i'r holl bobloedd. 5 Y mae Duw; ac nid oes arall ond efe. 9 Ei lywodraeth yn gyfiawn.

---

* *Gwel Schleusner tan y gair kosmos.*

Gweler Mat. vii. 1—5; Luc xii. 54—57; Ioan vii. 24; ix. 39—41. [Emynau 19, 20, 102, 363.]

(12) *Mai* 18.—Trugaredd Duw. Darllener Ps. ciii. cxlvi. Mor ymarhous yw ei ymddygiad tuag atom. Yn esiampl i ni. Mat. vii. 7—12; xviii. 23—35. [Emynau 15, 16, 350, 155.]

(13) *Mai* 25.—Duw y Bugail Mawr. Darllener Ps. xxiii.; c. Gweler Ps. lxiii. 5; xcv. 7. Y bugail yn *arwain*, nid yn *gyru* ei ddefaid. Yn wastad yn gymhariaeth hoff yn yr Eglwys Gristnogol. Cymharer "bugail" a "defaid," gweinidog a phobl. Y bobl ddewisol, yn gysgod o'r cyfryw hyny y mae Duw yn dynu ato ei Hun, trwy allu at-dyniadol ei gariad; h.y., trwy *ras*, neu fel y dywed Paul, trwy ffydd. [Emynau 338, 175, 176, 177.]

(14) *Mehefin* 1.—Y Dyn Perffaith. Darllener Ps. i. xv. xxiv. Gweler Ps. cxii.; Marc x. 17—31; xii. 28—34. Ffurfio caracter neu gymmeriad yn brif nod neu amcan crefydd. Gweler Ioan xiii. 17; Iago ii. 13—26; 1 Ioan iii. 7. [Emynau 53, 180, 115, 193.]

(15) *Mehefin* 8.—Balchder y Drwg. Darllener Ps. lxxiii., xxxvi. 1—12. Gweler Ps. xxxvii. 12—26; lxxvi. 10, 11. 1—16 Llwyddiant y drygionus yn profi ein ffydd. 17. Nes yr edrychom arno oddiar safle moesoldeb, ac yn ngoleuni gwirioneddau *tragwyddol*. 18. Yma y gwelwn y pris ofnadwy a'r hwn y prynir ef. Cymharer Galatiaid vi. 7—9. [Emynau 92, 168, 49, 106.]

(16) *Mehefin* 15.—Gweddi am Faddeuant. Darllener Ps. li. Gweler Ps. cxxx. Natur ysprydol rhinwedd a phechod. Cyfnewidiad meddwl (i.e., edifeirwch gwirioneddol ac o'r galon) yn dwyn maddeuant. *Pardwn* Duw yn *help*. Mae yn ceryddu nes gwellhau, yn ceryddu am ei fod yn maddeu. [Emynau 34, 147, 148, 180.]

S. N. S.

LOOKING OUT FOR NUMBER ONE.

Selfish people make it their motto to "take care of number one,"—meaning, of course, by "number one" themselves, because, in their estimation, their own pleasure or advantage comes before everyone else's.

"I always look out for number one," said a greedy boy one day, as he ate enough turkey and mince-pie to feed two boys of his age.

Four hours later that boy was so sick he could not hold up his head. Did that greedy boy really take care of number one?

One day, at school, a boy contrived to get to the head of his class by reading his lesson from a slip of paper which he held on the cover of his book. After school one of his companions said, "John, you got up in the class this morning by cheating."

John laughed and replied, "Oh, I only looked after number one."

Did John look out wisely for number one? Let us see. He deceived his teacher, and cheated his companions out of places that of right belonged to them. In doing this he made himself unjust, false and

selfish; he offended his conscience; he sinned against God. Was that taking good care of number one?

No, children. Number one is never benefited by doing wrong. The best thing you can do for number one is to do right and to seek the happiness and the good of others, rather than be ever thinking of your own. You will find that after all number one is happiest when least remembered. —*Selected.*

DAVID JENKIN REES O LOYDJACK.

Mr. Ymofynydd,—

Mewn atebiad i'ch cerdyn, wele fi oddiar glawr cof a chadw yn gosod yr hanes canlynol (gwn mai anmherffaith, gan nas gallaf wneyd chwareu teg â gwrthddrych mor odidog â David Jenkin Rees) allan, gan nad oeddwn ar amser ei ymadawiad o'r fuchedd hon, ond dwy flwydd oed, a'r personau ddarfu ddweyd wrthyf y rhan fwyaf erbyn hyn wedi myned; ond 'roedd rhywbeth mor darawiadol yn ei hanes gan fy hyspyswyr, nad oedd bosibl 'rol ei glywed unwaith ei ollwng dros gof. Fel y canlyn y dywedent:—Iddo ef gymmeryd Fferm Loyd Jack ar *Lease* o dri bywyd, efe ei hun, a'i wraig, a Rees Jones ei nai. 'Roedd y Fferm y pryd hwnw yn gaeau bychan, a'r gwernydd o dano yn gors gyffredinol; dechreuodd o ddifrif ar ei waith, gwnaeth ffyrdd trwy y gwaenydd, a chwterodd yn ddibaid, oll ar ei draul ei hun. Yn mhen ychydig gwelid caeau ffrwythlon bob ochr i'r heol gyffredinol sy'n arwain o Lambedr i Aberayron. Cadwai luaws o labrwyr; a phob crefftwyr angenrheidiol arall at ei wasanaeth. Mynodd saer certi o Loegr am ddwy flynedd, a chadwai Gymro o saer i'w gynnorthwyo; dygwyd gwybodaeth y Sais rhyngddynt, ac mae wyrion y saer hwnw yn y gymmydogaeth yn awr gyda'r goreu am wneyd Troliau yn yr holl wlad. Yn Loyd Jack gwelais yr aradr cyntaf yn tori dwy gwys ar unwaith un ar ol y llall. Yn y flwyddyn 1813 neu 1814 ni chafodd neb yn yr ardal eu llafur i ddiddosrwydd ond Loyd Jack, cyn i'r hin droi yn wlyb a pharhau felly hyd galangauaf. 'Roedd David J. Rees yn ffermwr o'r iawn ryw, gosodai ei had yn gynar, a dylynai cynar fedi. Cwrddais â hen was o Ffosffin yr hwn barablodd fel y canlyn wrthyf: "Buais yn was fferm gyda D. J. Rees yn Loyd Jack, a phriodais o'r lle, ond ar y flwyddyn wlyb hono ni chefais ysgub o haidd i ddiddosrwydd cyn i'r hin droi, a mawr y golled gefais gan na feddwn un blawdyn ffit i roddi burym ynddo, ac 'roedd fy mhlant bychain wedi moni ar y dorth grai ddiorphen. Un boreu cyn i'r wawr dori, clywais ryw ddyn ar geffyl wrth fy nrws, a gofynodd ai fi oedd gwr y lle hwnw. Ie, meddwn. Cyn cael gair o'i enau disgynodd a thaflodd ffetan yn llawn o rywbeth i fy nrws, ac ymaith ag ef ar garlam. Synodd hyn fi yn erwin; tarawodd y meddwl ynwyf ar unwaith mai Brâg *smuggle* oedd. Tynais y pwn i'r tŷ a fy ngwallt

yn sefyll yn syth ar fy ngoryn fod yr *Excise Officers* yn y fan. Agorais y pwn, a thyna chwerthin mewn syndod wnes wrth ganfod mai haidd pur iach a melyn oedd, yr hyn ni welais wedi amser hau. Mor gynted ag y daeth yn ddigon goleu, dylynais ol y march, a hyny am yn agos i dair milldir; adnabyddais fod ei gyfeiriad at Ystrad, a chlywais cyn hir wrth ofyn nad oedd dim o'i fath ond yn Loyd Jack y flwyddyn hono. Cofiwch buasai yn dramgwydd i ymholi iddo na diolch am dano wrth y rhoddwr. Dyna'i ddull ef o roddi, a balchder oedd ganddo roi cymhorth i'r angenus heb iddo wybod o ba le y daeth."

Yr oedd ei weithwyr oll mor barchus o hono, gwnaent unpeth er ei fwyn. Dywedent na werthodd un hedyn o'i lafur y flwyddyn hono, ond ei roi at fwyta, a had-ŷd i'r gweiniaid heb geiniog i brynu. Cododd chwech anedd-dŷ i'w weithwyr, efail gof a thŷ iddo; clywais y gof yn dweyd ei fod yn gorfod dangos ei lyfrau iddo gael gweled a oedd yn talu digon am ei waith i'r gof; pob labrwr oedd ganddo ar ei dir wedi priodi, ac yn dad i blant, 'roedd yn rhaid i'r labrwr hwnw gadw buwch, rhoddai borfa a gwair iddynt am bris rhesymol. Nid oedd yn arfer magu lloi buwchod, ond eu lladd yn fwyd i'w weithwyr, ei weision, a'i forwynion. Elai i waered i Sir Benfro a phrynai bob blwyddyn at ei angen, a phan ddelent yn ffit prynai gan ei gymmydogion ac ereill atynt, ac ymaith â hwynt i Loegr. 'Roedd yn ffair Llanwnen unwaith, a gwelai hen wraig â buwch ganddi, a gofynodd ei phris. "£5" meddai. "Druan o honoch daliwch £6 am dani, ac os na chewch hyny rhoddaf hwynt i chwi." Felly bu, a balchder mawr gan y wraig. Dywedodd bechgyn Bwlch Castell Cilcenin wrthyf, fod eu tad wedi gwerthu wyth bustach i D. J. Rees unwaith, a phan ddaeth yn ol o Loegr a chwrdd eill dau iddo roddi punt y pen i wella y fargen. Yn y dull yna y triniai ei fywyd masnachol meddent, a digon tebyg mai effaith o'r fath sydd yn tori allan yn mhlith Trindodiaid, canys y mae yn well ganddynt hyd y dydd hwn fargenio â Sosin meddant.

'Roedd D. J. Rees yn ddyn ymchwilgar i effeithiau ac achosion, nid yn unig am angenion ei weithwyr, ond eiddo y gymmydogaeth yn gyffredinol. Gwelodd eisieu moddion addysg ar y werin, a pharodd godi ysgol yn Maesllan, a bu y Parch. J. James yn ei chadw, ac ereill lawer wedi hyny. Ond y nod uchaf yn ei fywyd oedd magu Cristionogion ieuainc hyd ag y gallai, a'r hen hefyd, a bu yn achos i droi llawer at ei Dduw. Cadwai ei deulu ei hun yn grefyddol, gan gadw Ysgol Sul yn ei dŷ, a phregethai bob pythefnos, ac wrth wneyd felly fe grynhodd yr ardal i'w Ysgol a'i oedfaon, nes yr aeth amaethdŷ Loyd Jack yn rhy fychan. Cododd dŷ ar ei draul ei hun er cadw Ysgol a phregethu ar y Suliau, yr hwn fu yn meddiant yr Undodiaid hyd ddiwedd y *Lease*, a gorfu arnynt dalu £10 y flwyddyn wedi hyny am dano hyd nes yr adeiladasant Rhydygwin. Ond i ddyfod 'nol at fy hanes, pan welodd yr Eglwyswyr fod y fath lwyddiant yn cydfyned â gweithredoedd D. J. Rees, aethant yn wyllt o'u co'. Cydunwyd yn rhywle rhwng yr Esgob a hwythau anfon Williams o Lampeter i roi pump pregeth ar bump pwnc Calvin, a thalu 20 swllt yr un iddo am wasgaru y Sosiniaid oddiar wyneb y ddaear. Yntau a ddech-

reuodd arni o ddifrif, ac erbyn iddo orphen y bregeth gyntaf, deallodd y dyrfa fod rhagor o ymdrin i fod ar y pwnc ar *stage* wrth dalcen yr Ysgoldy Undodaidd, aeth y dyrfa yno yn unllaw, a chawsant olwg arall ar y pwnc, ac felly parhaodd nes trin y pump yn ddeheuig medd-ent o bob tu; ond yr effaith cewch glywed, aeth y gwrandawyr i chwilio yr Ysgrythyrau a oedd y peth felly, a daeth y nifer luosocaf i gredu fod Calvin i'w feio, a phan gafodd yr Eglwys gyfle cofiodd, ond 'roedd arian yr Undodiaid yn ddigon cyfleus.

Torodd twymyn allan yn haf twym 1817, a lladdodd ugeiniau—dau mewn llawer teulu, ac un bron yn mhob tŷ. 'Roedd yn amser lled brysur yma pryd hwnw, a gwasgfa fawr mewn llawer teulu; ond David J. Rees ai o amgylch gan gysuro a gweini, a chladdwyd llawer ar ei draul; ond yn y diwedd, wrth fynych gyrchu at y cleifion, claf ei hun yr aeth, a marw. Ar y 24ain o fis Medi, 1817, claddwyd ef yn yr Ystrad, yn 57 mlwydd o'i oedran, lle 'roedd tyrfa wylofus wedi ei hebrwng.

J. JENKINS.

O.Y.—Claddwyd dyn hynod arall yn Mynwent yr Ystrad. Mae carreg ei fedd fel y canlyn :—

IN MEMORY OF
JOHN DAVIES,
OF THIS PARISH, WHO DIED DEC. 28, 1799,
AGED 77 YEARS.

Yna canlyna y pennillion hyn, o waith Davis o Gastellhywel :—

"Beneath this stone lies John alone,
Cordwainer, scribe, musician,
Poet sublime in Blank and Rhyme,
Divine and Politician.

God's foes tho' Kings as noxious things,
With honest zeal detesting,
The ways of God 'till death he trod,
For heavenly joys contesting.

'E ddaw ryw ddydd o'i rwymau'n rhydd,
Trwy ddedwydd adgyfodiad;
A gweled gawn myn Duw mewn dawn
Ei faethu i lawn berffeithiad."—J. J.

NODYNAU GWASGAROG.

CYFANSODDIAD DYN.—Nis gallwn gredu fod y Gymraeg i farw am dipyn etto, dyry ffrwyth y wasg i ni wrthddadl cryf i hyny o syniad. Oni bae y *demand* nid tebyg y ceid y *supply*. Dyna un o ddeddfau natur, onide? Ond o'r holl lyfrau Cymreig ydynt wedi ymddangos yn ddiweddar, nid oes yr un, dybygwn, yn appelio mor uchel at ddealldwriaeth ein cenedl â'r cyfieithad o Combe's "*Constitution of Man*;" gobeithiwn na fydd yr appel yn un ofer. Nid ydym yn gwybod am un rheswm paham na allai Cymro feistroli y llyfr hwn yn ogystal

â Sais, a bod yn well o'r ymdrech. Megys y mae gwaith y corff yn cryfhau y corff, felly y mae gwaith y meddwl yn cryfhau y meddwl. Bu y llyfr hwn mewn bri mawr yn rhai parthau o Gymru tua deugain mlynedd yn ol, ond yn mhlith rhai a ddcallent Saesneg. Yn awr trwy lafur di-ildio ein cyfaill Mr. Jenkin Evans, Blaenllecha, hen ddosparthwr yr Ymofynydd am flynyddau lawer, dyma gyfleusdra i'r Cymro uniaith i ddangos beth sydd ynddo. Os gallodd Mr. Evans yn ei hen ddyddiau (deallwn ei fod yn ymyl 80) ei gyfieithu, dylai fod yn llai o dasg i'n hieuenctyd ei ddarllen a'i feistroli. Cynnwysa'r llyfr 374 o dudalenau, a gwerthir ef am swllt. Nid ydym yn gwybod am un llyfr Cymraeg o'i faintioli a ellir ei brynu am swllt. Y cyhoeddwr yw Mr. Daniel Owen, Caerdydd.

Esgob Butler a ddywed: "Y mae yr oll a fwynhawn yn y sefyllfa bresenol, a rhan fawr o'r hyn a ddyoddefwn, wedi cael ei osod yn ein gallu ni ein hunain. Oblegyd canlyniadau ein gweithredoedd ydyw pleser a gofid; ac yr ydym wedi cael ein cynnysgaethu gan Awdwr ein Natur â chynneddfau a'n gâlluogant i'w rhagweled. Nis gwn am un math na gradd o fwynhad ond sydd ddeilliedig oddiwrth ein gweithredoedd. A gallwn, trwy ofal a phwyll, dreulio y rhan fwyaf o'n dyddiau yn weddol gysurus; neu, ar y llaw arall, gallwn, trwy fyrbwylldra, nwydau aflywodraethus, cyndynrwydd, a'r cyffelyb, ac hyd y nod esgeulusdod, wneuthur ein hunain mor annedwydd a fynom. A myn llawer wneyd eu hunain yn dra annedwydd; hyny yw, i gyflawnu yr hyn a wyddant yn mlaen llaw a'u gwnant felly. Dylynant ffyrdd, pen draw pa rai a wyddant, trwy addysg, esiampl, a phrofiad, fydd iselhad iddynt eu hunain, tlodi, afiechyd a marwolaeth anamserol. Dyma ddull y byd gyda llawer. Ond etto, rhaid addef nas gallwn briodoli yr oll o'n ddyoddefiadau i'n ffolinebau ein hunain."—Dyfynedig yn "Cyfansoddiad dyn," gan George Combe, tud. 273.

Del. Trem.—Nid peth o ychydig bwys yw adolygu llyfr yn cario ar ei wyneb y geiriau "Price One Guinea," ond dyna sydd genyf i'w wneuthur yn y llinellau hyn. "Del. Trem. A Confession. By F. S. A., Cowbridge." pp. 16. O ran swmp nid oes yma ddim llawer i'w ddarllen, ond o ran sylwedd ac amcan mae y llyfr yn bwysig. Dychymygol yn ddiau ond etto yn ddarluniad llythyrenol o brofiad llawer, fel mae gwaethaf y modd. Nid y *Blue Ribbons* fodd bynag, na'r *Good Templars* sydd mewn perygl o'r cyfeiriad hwn. Uffern ar y ddaear yn ddiamheu yw cyflwr y Del. Trem.—uffern yn ei hagrwch, ei ddychrynusrwydd, a'i boenau. Profiad ofnadwy yw yn y sylweddoliad, gan ei fod yn ofnadwy hyd y nod yn yr adgof, yr adgof pell. Mae darllen darluniad F. S. A. yn wers, a gobeithiwn yr arweinia lawer i weddio yn ddifrifol "Oddiwrth y *Delirium Tremens*, gwared fi, Arglwydd daionus." Meddylier am gyflwr dyn pan y mae dan ddylanwadau peryglus fel yma, pan y mae dychryn yn ei holl brofiadau, pan y mae profedigaethau ydynt bron bod yn anwrthwynebol yn ymgynnyg

iddo, pan y mae gwrthddrychau oddiamgylch yn ymddangos mewn ffurfiau dyeithr, ac yn ymlunio weithiau yn gorden, neu wenwyn, neu offeryn awch. Yr oedd yn ddiamheu yn felus cael rhyddhad o gaethiwed profiad y Del. Trem., ac wrth fy narlienwyr ieuainc yr wyf yn dymuno awgrymu yn daer ac yn ddifrifol, cadwch ar lwybr dyogelwch.—T. C. U.

Manion a Hanesion.

Bu William Newlands, brenin y Sipsiwn farw yn ddiweddar yn 102 oed.

If a man have not found his home in God, his manners, his forms of speech the turn of his sentences, the build (shall I say?) of all his opinions, will involuntarily confess it, let him brave it out how he will.—*Emerson.*

Mae gweinidog capel y "Trinity" yn Aberdar, wedi myned i fyw i "*Unity*" *House*, y tŷ sydd mewn cyssylltiad â'r capel Undodaidd Seisnig. Dyma Drindod mewn Undod!

Yn ol tystiolaeth Mr. Henry Richard y mae yn Nghymru 84 o gyfnodolion (newspapers and periodicals), 32 yn y Gymraeg a 52 yn Saesneg.

Mewn araeth a draddododd yn nghlyw rhyw 200 o ddeillion yn y "Victoria Tabernacle." Mawrth 18, dywedodd Mr. Fawcett fod un o bob mil yn ein gwlad yn ddeillion.

Daplleuwn yn y *Christian World* am Mawrth 20, fod yr Annibynwyr yn America wedi parotoi credo newydd.

Dywedir fod cant o fyfyrwyr Cymreig yn Mhrif Ysgol Edinburgh.

Sidney Smith sydd wedi dywedyd y byddai llawer mwy o Samariaid da yn y byd nag y sydd, pe gellid bod yn Samariaid da heb yr olew a'r ddwy geiniog.

I'r tragwyddoldeb bendigedig ei hunan nid oes un *handle* arall ond y foment bresenol, meddai German enwog.

Dafydd ab Gwilym.—Tad y bardd hwn (sef Gwilym Gam, Bro Gynin, Llanbadarn Fawr) yn ei lawn ffwdan ar dywydd gwlybyrog, a barasai iddo geisio eithin i grasu haidd; ac yn yr un amser yn erchi rhes o orchwylion ereill annghysson i'w anwydau, yntau a ddynwaredodd ei dad fel hyn:—

Brysia dig-weitha, dwg eithin—i mewn,
Mae'n myned yn ddryc-hin;
Gyr y gwartheg o'r egin,
Hoi! hoi! tro y lloi o'r llin!

Ei ateb yntau oedd:—

Yr ydym ni'n dau yn diwynaw—'r ŷd,
A'r odyn heb dwymnaw;
Ni ad dryc-hin gael ciniaw;
Ni chras haidd glas ar y gwlaw.

Lleuad yr Oes, 1827.

Traddododd H. W. Beecher araeth yn Eisteddfod New York, mis Chwefror diweddaf, a dywedodd fod Lloegr Newydd a Chymru yn rhoi genedigaeth i ddynion ag ydynt mewn angen o awyrgylch eangach i lafurio ynddi. "My great-great-grandmother" meddai, "would to God she was not so great—spoke in the pure Welsh tongue. She is in me." Gallai Mr. Beecher bron ei chlywed yn murmur geiriau Cymreig, er ei fod yn well ganddo beidio adrodd beth oeddynt. Dywedai fod ynddo ef y llew a'r oen, Lloegr a Chymru, yn gorwedd yn nghyd, ac felly, yn cyfuno ynddo ei hunan y ddwy linach, yr oedd yn ymgymmeryd â llywyddiaeth y cyfarfod. Yr oedd Cymru wedi cyfranu ei rhan i ffurfio caracter pobl America. Dywedir yn Enwogion Ceredigion, tud. 222, fod hen famgu y Beechers, Mary Roberts, wedi ymfudo o Landdewi-Bref tua 1726. Ymfudodd teulu o'r enw Selby yr un amser, a darfu i Cadben Isaac Selby, mab Evan, enwogi ei hun yn y rhyfel a ennillodd Annibyniaeth America, 1776.

Yn ol y newyddiaduron diweddar y mae Mr. Shapira, yr hwn a enwogodd ei hunan mewn cyssylltiad â'r hen law-ysgrif o lyfr Deuteronomium wedi saethu ei hunan yn Rotterdam.

Lerpwl.—Mae adroddiad y *Domestic Mission Society* newydd gael ei gyhoeddi, ac y mae'n hyfrydwch genym weled ynddo arwyddion fod gan ein cyfaill, y Parch. T. Lloyd Jones ddigon o waith, a'i fod yn llwyddo gyda'i waith. Nid ydym wedi rhoi i fyny yn lan na chawn ni erthygl i'r Ymofynydd oddiwrtho bob yn ychydig.

Y Parch. E. W. Humphreys.—Oddiar pan y gwnaed sylw o farwolaeth Mr. Humphreys yn Yr Ymofynydd diweddaf, mae papyrau Americanaidd wedi dyfod i law, a chymmeraf y cyfleusdra hwn i gyfeirio rhai camgymmeriadau ac ychwanegu manylion pellach. Ganwyd ef Ionawr 11, 1816, a bu farw o'r canor yn yr ystumog Ionawr 14, 1884. Ymunodd â'r Eglwys yn Llwynrhydowen, pan yn 18 oed. Ar ol tirio yn America yn 1842, bu mewn ysgol yn New York, ac wedi hyny yn Granville, Ohio. Unodd ag enwad y "Y Cristionogion" yn 1845, ac yn yr un flwyddyn yr aeth i Goleg Meadville, lle y graddiodd yn 1848. Yn y flwyddyn ganlynol ymsefydlodd fel gweinidog yn Dayton, Ohio. Yn 1851, priododd Sophia Fairfield, ac oddeutu yr un amser daeth i fod yn brif athraw ysgol Merom, a bu yn foddion yn fuan i gyfnewid yr ysgol i fod yn Goleg, yn yr hwn y bu ef ei hun yn un o'r athrawon am ryw amser. Yn 1862—63, bu yn astudio Meddyginiaeth yn Cincinnati, ac yn mhen ychydig appwyntiwyd ef yn Olygydd yr "Herald of Gospel Liberty," papyr wythnosol ei enwad ei hun, copi o'r hwn am Chwefror 7, 1884, sydd o fy mlaen yn awr. Rhoddodd yr olygiaeth i fyny ar ei ymweliad ag Ewrop a Phalestina yn 1873. Y flwyddyn ar ol ei ddychweliad bu farw ei ferch Florence, ac yn mhen tair blynedd ar ol hyny collodd ei wraig. Yn mhen ryw amser priododd ei ail wraig Eunice Cone, yr hon a fu yn gyssur mawr iddo yn ei flynyddau diweddaf. Gadawodd dri o blant ar ei ol—Ethe, athrawes yn Ann Arbor, Michigan; Otho, myfyriwr yn yr un lle; ac Alfred Evan, ei fab hynaf, yr hwn sydd argraffydd yn Dakota. Heblaw ei waith llenyddol ar ran yr "Herald of Gospel Liberty," cyhoeddodd gyfrol yn cynnwys hanes bywgraffiadol o sylfaeniad a chynnydd yr enwad y perthynai iddo. Cymmerodd ei angladd le dydd Mercher, Ionawr 11eg. Gwasanaethodd y Parch. A. W. Coan yn y tŷ. Cludwyd yr arch gan chwech o'i gyd-weinidogion o'r tŷ i'r Eglwys Gristionogol yn ymyl. Cymmerodd deuddeg o weinidogion eu lle ar yr esgynlawr, a siaradodd un-ar-ddeg o honynt. Pregethodd y Parch. Dr. Summerbell oddiar Genesis l. 11. "Dyma alar trwm," ac yn nghwrs ei bregeth sylwodd nad oedd Mr. Humphreys wedi gadael neb ar ei ol a chynnifer o gyfeillion personol ganddo yn Ohio ac Indiana. O'r Eglwys cludwyd ei weddillion i orphwys yn nghladdfa gyhoeddus Yellow Springs. Terfynwn gyda'r deyrnged ganlynol i'w gymmeriad gan y Parch. D. A. Long, Prif Athraw Antioch College, Yellow Springs:—"Yr ydym yn edmygu y gwladgarwr pur, y cyfreithiwr dysgedig, yr areithiwr hyawdl, y meddyg medrus, y milwr dewr, a'r gwleidyddwr doeth; ond yr ydym yn rhoddi gwarogaeth ein calon iddo ef, yr hwn yn rhinwedd mawredd ei natur foesol sydd wedi cadw ei hun yn bur a dilychwin trwy gylch eang treialon a brwydrau cymmysgedig yn mywyd y gwehydd, yr athraw, y gwr, y tad, y golygydd, y gweinidog, a'r hwn yn ei farwolaeth sydd wedi gadael coffadwriaeth a fydd yn gyffroad ac yn safon i ieuenctyd ei wlad am flynyddoedd i ddyfod."—W. J.

Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar.—Mewn cyfarfod o gynnulleidfa yr Hen-dy-Cwrdd, a gynnaliwyd nos Sul, Chwefror 3, 1884, cynnygiwyd, eiliwyd, a chymmeradwywyd yn unfrydol y penderfyniadau canlynol:—I. Fod y cyfarfod presenol yn dymuno gosod ar gof a chadw gydnabyddiaeth ddiolchgar o'n rhwymedigaethau lluosog i'n diweddar frawd ymadawedig, W. Williams, Yswain, Cwmneol, yn ystod ei fywyd hir, a'n diolchiadau neilluol am y £100 y mae wedi adael i ni yn ei ewyllys, yn ogystal ag am ein rhoi yn rhydd o'r £125 ereill oeddynt yn ddyledus arnom iddo ar amser ei farwolaeth. II. Fod y penderfyniad hwn i gael ei osod yn Llyfr Cofnodion yr Eglwys, a chopi o hono i gael ei anfon at frawd yr ymadawedig, Thomas Williams, Yswain, a'i wraig. Arwyddwyd dros y gynnulleidfa, Joseph Jenkins, Cadeirydd; R. J. Jones, Gweinidog.

Fe ddylai darllenwyr Yr Ymofynydd fel darllenwyr papyrau ereill wybod fod Golygydd Yr Ymofynydd fel golygydd papyrau ereill yn dysgwyl cael enw ei ohebwyr cyn cyhoeddi un math o ohebiaeth. Wrth gwrs, nid yw yn angenrheidiol i'r enw gael ei gyhoeddi.

Mewn araeth yn y Polytechnic, dywedodd Quintin Hogg wrth y bobl ieuainc y dylent weithio dros ddaioni Duw, dros gariad Duw, ac iechydwriaeth Duw. Nid oedd efe yn credu y cawsai y merthyron y coronau i gyd yn y farn ddiweddaf; fod byw i wasgar ac i weithio dros y gwir yn fynych yn fwy anhawdd nag i farw drosto

Ofergoeliaeth. Nid yn y dosparth iselaf yn unig ei ceir. Yn St. Luke's, Leek, yr oedd bedd wedi ei dori yn barod, ond pan ddaeth yr offeiriad ato, dywedodd nad oedd y traed yn y cyfeiriad iawn, a gwrthododd fyned yn mlaen a'r gwasan-

aeth. Awgrymwyd ei fod yn debyg i ganoedd ereill, ond daliodd y Ficer at ei boint, a nododd yr anhawsder a gymmerai le ar Ddydd yr Adgyfodiad os na fyddai'r traed tua'r Dwyrain. Mesurwyd y coffin a chawd allan y gellid ei ollwng i lawr yn y cyfeiriad arall, ac felly sicrhawyd heddwch i gydwybod yr offeiriad, a chaniatad i fyned yn y blaen a'r gweddill o'r gwasanaeth a'r gwaith mewn tawelwch.

Yr oedd Madam Partington mor falch ar ei *mop* newydd yn y dyddiau gynt, fel y darfu iddi geisio, meddai nhw, i olchi *Tide* yr *Atlantic* yn ei ol. Ni lwyddodd hi ddim. Myn rhai fod y *Church Defence Association* wedi prynu y *mop* i Mr. Byron Reed, a thybiant eu bod yn tycio yn erbyn y *Tide!* Beth dybi di, ddarllenydd?

Llifogydd.—Pan yn darllen am beth sydd yn cymmeryd lle mewn gwledydd ereill, yr wyf yn meddwl y dylem deimlo yn ddiolchgar ein bod yn byw yn Mhrydain, lle mae pob peth mewn ystyr yn gymmedrol. Rhywbeth rhyfedd yw y llif diweddar fu yn yr afon Ohio yn America, pan gododd yr afon 71¾ o droedfeddi, gan achosi difrod a dinystr dychrynllyd. Dinystriwyd miloedd o dai a gwerth tua £8,000,000 o eiddo; gan adael rhyw 50,000 o bobl heb gartref. Fel arfer mai wedi bod yn foddion i agor clust tosturi i raddau helaeth iawn; ac yn mhlith ereill cawn fod Christie Nillson wedi gwneuthur ei rhan, trwy roi cyngherdd at wasanaeth y dyoddefwyr, a dywed y Cincinnati "Weekly News" am Chwefror 20, yr hwn sydd yn llawn o hanes y llif, fod y Gyngherdd wedi troi allan yn llwyddiannus iawn. Rhywbryd yn ystod y cyfarfod hi dynodd sylw neillduol trwy roi cusan i ryw blentyn bach, a dywed y "Weekly News" nad oedd yr un gwryw yn y cyfarfod na charai efe fod yn lle y plentyn bach. Mae dynion rhyfedd yn America!

PRIODAS.

Priodwyd yn Nghapel Caeronen, ar y 17eg o Fawrth, gan y Parchedigion R. C. Jones a Thomas Thomas, gerbron y cofrestrydd, Mr. David Parry, Mr. Thomas Evans, Troedyrhiw, â Miss Eleanor Richards, Pontfaen, Cellan.

Marwgofion.

Tachwedd 2il, Elizabeth Davies, Penrhiw, Dihewid, yn 81 oed, wedi hir gystudd. Claddwyd yr hen chwaer ddidwyll hon, yn ol ei dymuniad, yn nghladdfa newydd capel y Cribyn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ a'r capel gan y Parch. Jno. Davies. Caffed ei phlant a'i hwyrion y fraint o alaru yn gymmedrol ar ei hol, a boed iddynt rodio llwybr iawnder fel y gwnaeth hi, fel y byddo iddynt etto ail-gyfarfod dedwydd lle ni bydd ymadael mwy. Dyma'r gladdedigaeth gyntaf a gymmerodd le yn y Cribyn.

Chwefror 15fed, Daniel Davies, Cefnllan Cottage, ger Pontardawe, yn 53 mlwydd oed, wedi hir nychdod. Genedigol o blwyf Llanybyther oedd yr ymadawedig. Bu fyw cyn symud i'r ardal hon yn Glaneinon, Llanybyther. Claddwyd ef yn nghladdfa Gellionen dydd Iau canlynol, pryd y pregethodd y Parch. J. Evans oddiar destyn oedd yr ymadawedig wedi ddewis cyn ei farwolaeth—Rhuf. viii. 16, 17. Yn ol y dymuniad oedd ef wedi ei wneuthur, canwyd yr emyn "Cyfod f'enaid taen dy adenydd," Casgliad Jones, Rhif 167, yn ei angladd. Yr oedd yr ymadawedig yn Undodwr goleuedig; yn barod bob amser i roddi rheswm am y ffydd oedd ef yn ddal: ys dywedai un cymmydog o Eglwyswr am dano, "nid Undodwr dallbleidiol oedd." Gadawodd weddw a chwech o blant i alaru ar ei ol. Y nef fyddo'n dirion wrthynt, ac yn neillduol y weddw, yr hon sydd wedi bod yn wael ei hiechyd er's cryn amser. Na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith.

Ar yr un dydd, claddwyd yn yr un lle, wyr bychan i'r ymadawedig—David, mab Lewis ac Ellen Bowen, o Graigtrebanos, yn 4 mis oed. Bydded i'r rhieni yn eu trallod mawr gofio geiriau'r Iesu, "Gadewch i'r plant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch hwynt; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw."—J. E.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—W.G., Pontyberem; J.J., Quakers' Yard.

Dalier sylw fod taliad yn ddyledus gyda'r rhifyn hwn, a chofier yr arbedir i ni drafferth a thraul wrth dynu yr *Orders* ar y *Mill Street* Post Office, Aberdare.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

Y CWRDD CHWARTER.

Cynnelir y Cwrdd Chwarter nesaf yn Rhydyparc, ar y dyddiau Mercher a Iau, y 16eg a'r 17eg o fis Ebrill. Y pregethwr boreu dydd Iau fydd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Bydd cerbydau yn cyfarfod â'r gweinidogion yn ngorsaf St. Clears prydnawn dydd Mercher. Taer ddymunir am bresenoldeb ein gweinidogion.

TRYSORFA ADDYSG.

At y Weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru.

	£	s.	c.
Morgan Jones	0	2	6
Thomas Hopkin	0	2	6
William Thomas, Chemist	0	2	6
Richard Llewelyn	0	2	6
Lewis N. Williams	0	2	6
Thomas Morgan, Cattle Dealer	0	2	6
Jenkin Llewelyn	0	2	6
Rees Llewelyn, Bwllfa	0	2	6
Joseph Jenkins	0	2	6
Evan Griffiths	0	2	6
Evan Jones	0	2	6
Thomas Walters	0	2	6
Mân symiau	0	15	6
Cyfanswm	£2	5	6

THOMAS HOPKIN, MORGAN JONES, } Collectors.

CAPEL NEWYDD LLANDYSSUL.

Cydnabyddwyd eisoes £653 19s. 2d. Evan Lewis, Cefncoed, 5s.; W. Hughes, do. 5s.; G. Morgan, do., 2s. 6d.; J. Evans, do., 5s.; Mrs. Evans, Dowlais, 10s.; E. M. Jenkins, do., 2s. 6d.; Jas. Evans, do., 10s.; Rev. W. Davies, do., 5s.; Rowland Lewis, Merthyr, 10s. 6d.; M. W. Roberts, do., 5s.; E. Evans, Penheolgerig, £1; Chr. Evans, do., £1; John Lewis, Dowlais, 10s.; H. Lloyd, do., 3s.; Jonah Davies, do., 2s. 6d.; J. S. Jones, Merthyr, 7s. 6d.: Mrs. Williams, Cefncoed, 5s.; W. Thomas, Mill St., Aberdare, £1 1s.; D. J. Jones, Mount Pleasant, do., 15s.; Mrs. Jones, do., 15s.; T. Lewis, Welsh Harp, do., 5s.; Mrs. Davies, Llewelyn st., do., 3s.; M. Smith, Mill st., do., 2s. 6d.; Mrs. Williams, Harriet st., do., 2s. 6d.; Cyfaill, 5s.; E. Howells, Maesgwyn, £1 1s.; T. D. Williams, Bryngwyn, 10s.; D. R. Evans, Commercial st., 10s.; D. K. Williams, do., 5s.; Mrs. Gething, 10s.; E. Thomas, Ironmonger, £1 1s.; Cyfaill, £1 2s. 6d; D. Jones, Chemist, £1 1s.; Dl. David, Abernantygroes, £2 2s.; J. Howell, Printer, 5s.; Rev. E. W. Lloyd, Cwmbach, 10s. 6d.; Mrs. Lloyd, do., 5s.; D. Evans, Ironmonger, Ferndale, 10s.; Jenkin Evans, do., 10s.; John Williams, do., 5s.; Enoch Davies, do., 10s.; Thomas David, Cwmbach, 5s.; J. Morgan, do., 5s.; T. Thomas, Cefnpennar, 5s. Symiau bychain, 12s.

(I barhau yn y nesaf).

W. JAMES, Ysgrifenydd.